



#END SEWAGE POLLUTION

[v1 - 2025]

Canllaw Gweithredu: Cael Eich Aelod o'r Senedd i Siarad Allan



**SURFERS
AGAINST
SEWAGE**



Cyflwyniad

1

Y Broblem mewn Niferoedd

2

Ein Gweledigaeth ar gyfer Dŵr

3

**Trosolwg: Beth mae Aelodau
o'r Senedd yn ei wneud?**

4

**Cam wrth Gam: Dylanwadu ar
eich Aelod o'r Senedd**

6

1 - Gwnewch eich Gwaith Cartref – Pwy yw
eich Aelod o'r Senedd a Beth sy'n ei Danio?

6

2 - Cysylltu â'ch Aelod o'r Senedd

7

3 - Cyfarfod eich Aelod o'r Senedd

9

4 - Camau Dilynol

12

**Ewch yn Fanylach: Dod o Hyd i'r
Strategaeth Orau i Ddylanwadu ar
Eich Aelod o'r Senedd**

13

Senarios Cyffredin

22

Adnoddau

25





CYFLWYNIAD



Mae moroedd, llynnoedd ac afonydd Cymru yn cael eu tagu gan system ddŵr sy'n methu pobl a'r blaned. Mae carthion yn dal i gael eu tywallt i'n mannau glas ddydd ar ôl dydd, tra bod buddsoddiad hanfodol mewn seilwaith yn cael ei ohirio. Yn lle gweithredu, rydym yn cael data anghyson, esgusodion gwael ac oedi diddiwedd. Mae natur yn dioddef. Mae cymunedau'n talu'r pris.

Dyma lle rydych chi'n chwarae rhan.

O ddigwyddiadau glanhau cymunedol i wyddoniaeth dinasyddion, mae grym pobl eisoes yn cynhyrfu'r dyfroedd i amddiffyn ein mannau glas. Ond i droi'r llanw yn erbyn llygredd a methiant, mae angen i ni godi ein lleisiau er mwyn i'r Senedd ein clywed. Mae gan Aelodau o'r Senedd y pŵer i fynnu camau gweithredu, diwygio'r system ac ymladd dros ein dyfroedd - ond ni fyddant yn gweithredu oni bai ein bod yn rhoi pwysau arnynt. Yn uchel. Yn ddidrugaredd. Gyda'n gilydd.

Gwnaethom y canllaw hwn i'ch helpu i wneud hynny. Cam wrth gam. Senario wrth senario. Er mwyn i chi gael eich Aelod o'r Senedd i wrando, gweithredu, ac ymladd dros ddŵr glân yng Nghymru.

Peidiwch â theimlo bod yn rhaid i chi ddarllen y canllaw hwn i gyd mewn un eisteddiad. Os oes gennych chi ychydig o brofiad o ymgysylltu ag Aelodau o'r Senedd eisoes, mae croeso i chi neidio ymlaen i'r rhannau sydd fwyaf perthnasol i chi. Yn yr un modd, os ydych chi'n newydd sbon ac yn ansicr ble i ddechrau, dechreuwch gyda'r pethau sylfaenol cyn symud ymlaen. Defnyddiwch ef mewn unrhyw ffordd sy'n gweithio i chi!

Swnio'n dda? Gadewch i ni ddechrau...



Y BROBLEM MEWN NIFEROEDD



118,276

Nifer yr adegau y cafodd carthion eu rhyddhau gan Dŵr Cymru yn 2024, gan bara **968,340 awr** – cyfanswm syfrdanol

1 every 4 minutes

Pa mor aml ar gyfartaledd y cafodd carthion eu rhyddhau i ddyfroedd Cymru y llynedd

629

Nifer y carthion a gafodd eu rhyddhau a gofnodwyd yn Llanfairfechan yn 2024, gan ei wneud y lleoliad yr effeithiwyd arno fwyaf yng Nghymru. Roedd mannau problemus eraill yn cynnwys Bae Abertawe (493), Afon Wysg (468) a Llyn Padarn (417)

47

Nifer cyfartalog rhyddhau carthion fesul gorlif yng Nghymru yn 2024. Mae Dŵr Cymru wedi ymrwymo i leihau hyn, ond dim ond i 30 erbyn 2030 – llawer gwannach na tharged cyfartalog Cymru a Lloegr o 21

256

Nifer y swyddi sydd wedi cael eu colli'n ddiweddar yn Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) - gan wanhau gallu'r rheoleiddiwr i orfodi rheoliadau amgylcheddol.

0

Nifer y diwrnodau rhwng Ionawr a Mawrth 2025 heb i garthion gael eu rhyddhau rhywle yng Nghymru.



I ddysgu mwy am y system ddŵr sydd wedi torri, ewch i'n
ADRODDIAD ANSAWDD DŴR '25



EIN GWELEDIGAETH AR GYFER DŴR

glir, dylai moroedd, llynnoedd ac afonydd Cymru fod yn drysor cenedlaethol, nid yn domen ysbwriel i garthion. Ond mae llygredd arferol, seilwaith sy'n dadfeilio, a goruchwyliaeth wan yn golygu bod ein mannau glas yn cael eu haberthu. Ni fydd y sgandal hon yn cael ei datrys gyda mesurau annigonol nac addewidion gwag. Mae'n galw am weithredu beiddgar, atebolrwydd gwirioneddol, a diwygio system gyfan.

Rhaid i'r trawsnewid hwn gael ei arwain gan bum egwyddor allweddol i roi diwedd ar lygredd carthion yng Nghymru.



Diogelu Iechyd y Cyhoedd a'r Amgylchedd

Ni ddylai neb orfod dewis rhwng mwynhau'r dyfroedd a pheryglu eu hiechyd. Ni ddylai pobl a natur gael eu peryglu mwyach gan seilwaith sy'n methu neu esgeulustod corfforaethol. Rhaid i ddiogelu ein cymunedau a'n hecosystemau ddod yn gyntaf - bob amser.




Cryfhau Rheoleiddwyr Annibynnol

Mae angen rheoleiddwyr eofn ar Gymru. Rhaid iddynt fod yn annibynnol, gyda'r adnoddau iawn, ac wedi'u grymuso i ddwyn Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy i gyfrif. Mae hynny'n golygu gorfodi'r gyfraith, amddiffyn gwarchodaethau amgylcheddol, a gweithredu heb ymyrraeth wleidyddol. Mae unrhyw beth llai yn bradychu ymddiriedaeth y cyhoedd.



Democrateiddio'r Broses Gwneud Penderfyniadau

Dŵr yw bywyd, ac ni ddylid llunio penderfyniadau amdano y tu ôl i ddrysau caeedig. Mae cymunedau, dinasyddion, ymgyrchwyr, peirianwyr ac arbenigwyr yn haeddu cael dweud eu dweud ynghylch y ffordd y mae systemau dŵr yn cael eu llywodraethu. Rhaid i ddemocratiaeth mewn dŵr fod yn ystyrlon - nid yn ymarfer ticio blychau.



Sicrhau Tryloywder

Mae gan y cyhoedd hawl i wybod pryd a ble mae carthion yn cael eu rhyddhau – a beth sy'n cael ei wneud yn ei gylch. Rhaid i ddata, penderfyniadau ac atebolrwydd fod yn agored ac yn hygyrch, ac nid yn guddiedig. Os ydych chi'n cuddio'r gwir, ni ddylid ymddiried ynoch chi gyda'n dyfroedd.



Gwerth am arian

Mae talu biliau'n haeddu gwell. Mae hynny'n golygu sicrhau bod yr arian yn mynd lle mae ei angen: i drwsio seilwaith ac i fuddsoddi mewn atebion hirdymor sy'n seiliedig ar natur – gan ddod â buddion i'r hinsawdd a bioamrywiaeth gyda nhw.

TROSOLWG: BETH MAE AELODAU O'R SENEDD YN EI WNEUD?



Mae Aelodau o'r Senedd (AS) yn eistedd yn Senedd Cymru yng Nghaerdydd ac yn cynrychioli pobl Cymru. O etholiadau'r Senedd yn 2026 ymlaen, bydd 96 o Aelodau yn cynrychioli 16 etholaeth – gyda phob etholaeth yn ethol 6 Aelod o'r Senedd. Eu gwaith yw gwneud deddfau a phenderfyniadau sy'n effeithio ar fywyd bob dydd yng Nghymru.

Yn wahanol i Aelodau Seneddol y DU yn San Steffan, nid yw Aelodau o'r Senedd yn delio â materion sy'n berthnasol i'r DU gyfan fel polisi tramor – ond mae ganddynt rym dros lawer o'r materion sydd bwysicaf o ran mynd i'r afael â llygredd carthion, fel yr amgylchedd, ansawdd dŵr, iechyd y cyhoedd, amaethyddiaeth a llywodraeth leol. Mae hynny'n golygu bod eich Aelod o'r Senedd yn unigolyn allweddol sydd ei angen arnom ar ein hochr ni i wneud Cymru'n lle gwyrddach (a glasach!).

Gall Aelodau o'r Senedd fynnu gweithredu, tynnu sylw at gamau gorfodi gwan ar reoliadau amgylcheddol, cynnig deddfau newydd, a chodi eich pryderon yn uniongyrchol gyda gweinidogion yn Llywodraeth Cymru. Ac maent yn llawer mwy tebygol o weithredu pan fydd eu hetholwyr yn codi eu lleisiau ac yn rhoi pwysau arnynt.

Efallai nad ydyn nhw'n rheoli popeth - er enghraifft, gall rheoleiddio cwmnïau dŵr yn Lloegr gael effaith ar Gymru o hyd - ond mae gan Aelodau o'r Senedd bŵer gwirioneddol i wella camau monitro, gorfodi a diogelu'r cymunedau a'r dyfrffyrdd yn eu hetholaethau.

Yn gryno: eich Aelod o'r Senedd yw eich llais yn y Senedd. Os ydym am gael dyfodol glanach ac iachach, rhaid inni roi'r llais hwnnw ar waith.



GAM WRTH GAM: DYLANWADU AR EICH AELOD O'R SENEDD



Yn y 4 cam a nodir yn yr adran hon, rydym yn mynd i'ch tywys drwy'r broses o ddysgu ychydig am eich AS, cysylltu ag ef neu hi, cyfarfod gyda nhw ac yna – yn bwysicaf oll – sicrhau eich bod yn dilyn i fyny wedyn i'w dal yn atebol.

Os ydych ar ddechrau eich taith o ddylanwadu ar eich AS i weithredu ar fater llygredd carthion, mae dilyn y 4 cam hyn yn ffordd dda o ddechrau. Os ydych eisoes ychydig gamau'n rhagor yn eich ymgysylltiad ag eich AS ar y sgandal carthion, neu os nad ydych yn siŵr a yw cyfarfod yn y cam cyntaf gorau i'w gymryd, ystyriwch neidio ymlaen i'r adran nesaf, 'Ewch yn Fanylach – Dod o Hyd i'r Strategaeth Orau i Ddylanwadu ar Eich AS' ar dudalen 16

1 - Gwnewch eich Gwaith Cartref – Pwy yw eich Aelod o'r Senedd a beth sy'n ei danio?


Crynodeb Gweithredu:

- Chwiliwch am eich cod post ar wefan [Senedd Cymru Welsh Parliament](#) i ddod o hyd i broffil eich Aelod o'r Senedd.
- Beth yw enw eich Aelod o'r Senedd?
- I ba blaid mae'n perthyn?
- Beth yw enw eich etholaeth yn y Senedd?
- Beth mae crynodeb pleidleisio eich Aelod o'r Senedd yn ei ddweud am ei fuddiannau?

Fyddech chi byth yn mynd i'r dŵr heb wirio'r amodau yn gyntaf a meddwl am y lle gorau i nofio – gobeithio! Mae rheolau tebyg yn berthnasol wrth feddwl am sut i ddylanwadu ar eich Aelod o'r Senedd. Mae angen i chi wybod pwy rydych chi am ddylanwadu arno, ac ychydig am ei ddiddordebau fel y gallwch chi ddefnyddio'r strategaeth orau i ennill ei gefnogaeth.

Y ffordd gyflymaf o ddarganfod pwy yw eich Aelod o'r Senedd yw mynd ar y dudalen '[Dod o Hyd i Aelod o'r Senedd](#)' ar wefan y Senedd a nodi eich cod post yn y bar chwilio. Bydd hyn yn rhoi gwybod i chi pwy yw eich Aelod o'r Senedd ac enw etholaeth y Senedd rydych chi'n byw ynddi – mae hon yn wybodaeth ddefnyddiol yn enwedig os ydych chi am gael trigolion eraill yn eich etholaeth i gymryd rhan yn eich gwaith ymgyrchu.

Fel enghraifft, gadewch i ni ddychmygu eich bod chi'n byw ym Mhorthcawl. Ar ôl rhoi eich cod post, dylai ddangos proffil **Sarah Murphy**, Aelod o'r Senedd.



Fel y gwelwn, mae'r dudalen gyntaf eisoes yn rhoi rhywfaint o wybodaeth ddefnyddiol i ni ei nodi. Rydym bellach yn gwybod bod Sarah Murphy yn cynrychioli etholaeth **Pen-y-bont ar Ogwr** (y mae Porthcawl yn rhan ohoni) ac yn aelod o **Blaid Lafur a Chydweithredol Cymru**. Mae gwybod ymlyniad wrth blaid eich Aelod o'r Senedd yn hanfodol, oherwydd gall hyn roi syniad i chi o'i gredoau yn ogystal â phwy mae'n atebol iddo, ar wahân i'w etholwyr - yn aml disgwylir i Aelodau o'r Senedd feddu safbwynt swyddogol eu plaid ar rai materion, a gallant wynebu canlyniadau os na wnânt hynny, er nad yw hyn yn golygu na fyddant byth yn anghytuno ag arweinyddiaeth eu plaid.

Os sgroliwch i lawr i'r adran '**Fy Ngweithgareddau Senedd**', fe welwch archif o weithgareddau eich Aelod o'r Senedd yn y Senedd - gan gynnwys cwestiynau a gyflwynwyd, cynigion a gyflwynwyd ac areithiau a roddwyd. Gall y wybodaeth hon roi syniad i chi o ba mor weithgar ydyw yn y Senedd a pha faterion sy'n bwysig iddo.

O broffil Sarah Murphy, Aelod o'r Senedd, gallwn weld hefyd ei bod yn **Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant** Llywodraeth Cymru – sy'n arwydd y gallai effeithiau cadarnhaol mannau glas ar iechyd meddwl fod yn ffordd dda o'i darbwyllo i weithredu ar lygredd carthion!

2 - Cysylltu â'ch Aelod o'r Senedd

Crynodeb Gweithredu:

- *Dewch o hyd i fanylion cyswllt eich AS.*
- *Nodwch y prif bwyntiau ar gyfer eich neges gyntaf at eich AS: 'chi, eich cymuned, a'r mater uniongyrchol'.*
- *Eglurwch a hoffech slot yn un o'i gymorthfeydd galw heibio neu gyfarfod ar wahân, hirach.*


Nawr bod gennych chi syniad o bwy yw eich Aelod o'r Senedd a beth allai fod y ffordd orau o gysylltu â'r Aelod yna, mae'n bryd estyn allan! Gall hyn deimlo'n frawychus, ond mae'n haws nag y gallech chi feddwl. Cofiwch, gwaith eich Aelod o'r Senedd yw cynrychioli eich barn fel un o'i etholwyr.

Y ffordd fwyaf uniongyrchol o gysylltu â'ch Aelod o'r Senedd yw anfon e-bost neu ffonio eu swyddfa. Gallwch hefyd anfon llythyr atynt os ydych chi eisiau, ond yn aml mae'n well gan Aelodau o'r Senedd pe baech chi'n anfon e-bost atynt.

Fel y soniasom yn yr adran flaenorol, gallwch hefyd wneud cyflwyniadau gyda'ch Aelod o'r Senedd mewn sesiwn gyflym yn un o'u cymorthfeydd galw heibio sy'n rhoi cyngor - gall hyn fod yn ffordd dda o dorri'r garw ac yna gallwch ddilyn gyda chyfarfod hirach. Fodd bynnag, mae'n debyg y bydd angen i chi gysylltu trwy e-bost neu ffôn o hyd i archebu slot yn y sesiwn galw heibio.

Ble i ddod o hyd i'r wybodaeth

Dylai eich Aelod o'r Senedd fod â'i holl fanylion cyswllt wedi'u rhestru ar ei broffil ar Wefan y Senedd. Dyma enghraifft o broffil Sarah Murphy Aelod o'r Senedd:



Y pethau allweddol i'w cyfathrebu wrth gysylltu

Er ei fod yn demtasiwn i lenwi eich neges gyntaf i'ch Aelod o'r Senedd â gwybodaeth gymhleth, fanwl iawn, nid dyma'r ffordd orau i ddylanwadu arno bob amser. Mae'n debyg y bydd eich Aelod o'r Senedd a'i dîm yn derbyn llawer o friffiau polisi hir bob dydd o lawer o wahanol ffynonellau. Nid yw hynny'n golygu na allwch chi rannu a thrafod y manylion dyfnach gyda'r Aelod hefyd, ond mae bob amser yn syniad da ceisio meithrin perthynas yn gyntaf.

O ran cyfathrebiadau gan ei etholwyr, bydd eich Aelod o'r Senedd fel arfer eisiau blaenoriaethu pobl sydd angen help o ryw fath. Felly, os ydych chi eisiau torri trwy'r sŵn, dylai eich cyswllt cychwynnol ganolbwyntio arnoch chi, eich cymuned a'r mater uniongyrchol:

Chi

Pwy ydych chi? Beth sydd wedi eich ysgogi i gysylltu? Mae agor gyda rhai pwyntiau cryno am eich profiad eich hun yn ffordd wych o gyfleu'r broblem - gan ei dod â hi'n fyw mewn ffordd na ellir ei diystyru'n hawdd.

Cofiwch, dim ond ar ran pobl sy'n byw yn eu hetholaeth y gall Aelodau o'r Senedd weithredu. Felly, mae'n bwysig nodi eich bod yn un o etholwyr eich Aelod. Bydd cynnwys manylion fel eich cyfeiriad a'ch cod post yn caniatáu i'ch Aelod o'r Senedd wirio ei fod yn gallu mynd i'r afael â'ch pryderon.

Eich cymuned


Sut mae llygredd carthion wedi effeithio ar y gymuned ehangach? A fu achosion o salwch a achosir gan garthion yn eich ardal? A yw busnesau lleol wedi cael eu heffeithio mewn rhyw ffordd? Bydd unrhyw wybodaeth sy'n dangos sut mae'r mater rydych chi am ei drafod gyda'ch Aelod o'r Senedd yn cael goblygiadau pellgyrhaeddol i'w etholaeth yn helpu i gael ei sylw.

Y mater uniongyrchol

Beth yw'r peth penodol sydd wedi eich gwthio i gysylltu â'ch Aelod o'r Senedd? Efallai mai nifer y carthion sydd wedi'u rhyddhau yn eich man lleol neu bleidlais sydd ar ddod yn y Senedd neu fil pwysig. Neu efallai eich bod newydd fynd yn sâl ar ôl defnyddio'r dŵr ac rydych chi am rybuddio pobl. Beth bynnag yw'r rheswm, peidiwch â'i anghofio, oherwydd bydd y wybodaeth hon yn caniatáu ichi gyflwyno eich cais wedyn - h.y. y peth ymarferol rydych chi am i'ch Aelod o'r Senedd ei wneud.

Yn olaf, gwnewch yn siŵr eich bod yn nodi pa fath o gyfarfod yr hoffech ei gael – boed hynny'n slot cyflym yn ei gymhorthfa galw heibio i roi cyngor nesaf, neu'n gyfarfod hirach, ar wahân fel y gallwch fynd i fwy o fanylion.

Os yw'n helpu, rydym wedi gwneud e-bost templed y gallwch ei addasu a'i ddefnyddio i gysylltu â'ch Aelod o'r Senedd!



GWELER YR E-BOST TEMPLED

3 - Cyfarfod eich Aelod o'r Senedd

Crynodeb Gweithredu:

- ***Paratowch eich achos cyn cwrdd â'ch Aelod o'r Senedd – meddyliwch am ei rannu i: Cyflwyniad personol, problem uniongyrchol, problem ehangach, ateb.***
- ***Dewch o hyd i dir cyffredin trwy roi lle i'ch Aelod o'r Senedd ymateb i'ch pryderon. Defnyddiwch ddull cwestiynu ysgafn i ddarganfod ei safbwynt yn iawn, os oes angen.***
- ***Gwnewch yn siŵr bod gennych chi gais clir i'ch Aelod o'r Senedd sy'n cynnwys camau pendant y gall eu cymryd i helpu i fynd i'r afael â llygredd carthion. Os nad ydyw'n gwbl gefnogol, yna mae'n iawn dechrau'n fach a gweithio i fyny i ofynion mwy.***

Mae'r amser wedi dod i gyfarfod â'ch Aelod o'r Senedd! Mae'n normal i fod yn bryderus, ond mae'n bwysig ar hyn o bryd ceisio gadael unrhyw syniadau rhagdybiedig sydd gennych am eich Aelod wrth y drws. Drwy baratoi a chadw meddwl agored wrth ddechrau eich sgwrs, bydd gennych well siawns o gael eich Aelod o'r Senedd i fod yn fwy agored a chlywed yn iawn yr hyn sydd gennych i'w ddweud.

Pan fyddwch chi'n paratoi i gyfarfod â'ch Aelod o'r Senedd, ceisiwch gadw pethau mor syml â phosibl. Gellir rhannu cyfarfod Aelod o'r Senedd llwyddiannus yn 3 rhan: Cyflwyno'ch achos, dod o hyd i dir cyffredin ac egluro'ch cais:

Cyflwyno'ch achos

Yn aml, pan fydd Aelod o'r Senedd yn teimlo dan bwysau mewn cyfarfod, efallai y bydd yn ceisio rheoli'r sgwrs. Mae hwn yn ymddygiad amddiffynnol cyffredin. Y ffordd orau o geisio atal hyn rhag digwydd yw sicrhau eich bod yn paratoi'r hyn rydych chi am ei ddweud yn dda. Dylai hyn grynhoi ac ehangu ar y wybodaeth a roesoch yn eich neges gyntaf i'ch Aelod.

Dyma sut y gallwch chi strwythuro'ch achos i amlygu eich cysylltiad â'r broblem a dangos i'ch Aelod o'r Senedd pam y dylai boeni:

Cyflwyniad personol

"Rwy'n caru nofio gwyllt - mae'n un o'r pethau gorau am fyw yma, ac mae cymaint yn ein cymuned yn teimlo'r un peth."

Y broblem uniongyrchol

"Ond mae rhyddhau carthion yn ein man lleol yn golygu ein bod wedi gorfod canslo digwyddiadau nofio, ac mae busnesau lleol sy'n rhentu padlfyrddau a chaiacau yn colli incwm."

Y broblem ehangach

"Nid yw hyn yn lleol yn unig - mae'n genedlaethol. Mae carthion yn cael eu tywallt i ddyfroedd ledled Cymru, mae pobl yn mynd yn sâl, ac mae'r cwmnïau dŵr yn gwobrwyo penaethiaid gyda bonysau yn lle datrys y broblem."

Yr ateb

"Mae hyn yn gorfod newid. Mae angen tryloywder llwyr arnom, monitro gorlifiadau carthion yn briodol, a chanlyniadau go iawn i lygrwyr – fel y gall ein cymuned fwynhau dyfroedd glân a diogel eto."


Ceisiwch gefnogi'ch stori gydag ystadegau a ffigurau i ddangos maint y broblem. Nid oes angen i chi fod yn arbenigwr – mae gan yr ap **Safer Seas & Rivers Service (SSRS)** a **SAS Data HQ** bopeth sydd ei angen arnoch: o ddata ar ryddhau carthion i adroddiadau salwch lleol, i'w ddefnyddio'n uniongyrchol i gryfhau'ch achos!

Dod o hyd i dir cyffredin

Nawr eich bod wedi gorffen nodi'r mater ac egluro sut mae wedi effeithio arnoch chi, mae'n bryd gwranddo. Mae'r rhan hon yn ymwneud â gwranddo. Os yw'ch Aelod o'r Senedd yn osgoi'r mater neu'n dechrau malu awyr (ymddygiad amddiffynnol clasurol arall gan wleidydd), peidiwch ag ofni gofyn cwestiynau clir ac uniongyrchol. Cofiwch, mae hyn yn ymwneud â cheisio deall ei safbwynt fel y gallwch ddod o hyd i gytundeb a symud ymlaen.

Sut mae'r wybodaeth rydych chi wedi'i chyflwyno yn gwneud iddo deimlo? A ydyw'n rhannu eich pryder am bobl yn mynd yn sâl ac yn methu mwynhau mannau glas naturiol yr ardal?

Hyd yn oed os yw'n ymddangos nad yw eich AS wir ar eich ochr, mae'n dal yn bosibl ei hennill drosodd – dim ond bod angen dull craff a thipyn o amynedd. Meddyliwch am yr hyn sy'n ei ysgogi: mae'r rhan fwyaf o ASau am gael eu gweld fel rhai ymatebol, effeithiol ac yn boblogaidd yn eu hardal eu hunain. Dyma lle y gallech ddechrau dod o hyd i fan lle mae eich agenda chi, fel ymgyrchydd, ac agenda eich AS yn gorgyffwrdd.



Nid oes yr un Aelod o'r Senedd eisiau cael ei weld yn anwybyddu iechyd y cyhoedd neu'n dinistrio'r economi leol. Bydd hyd yn oed y rhai mwyaf llugoer yn honni eu bod yn poeni am y pethau sylfaenol hyn. Felly, nodwch unrhyw dir cyffredin - hyd yn oed os yw'n teimlo'n amwys - yna adeiladwch o'r fan honno. Defnyddiwch ffeithiau cadarn i ddangos sut mae llygredd carthion yn bygwth yr union bethau mae'n ei ddweud y mae'n eu cynrychioli. Gwnewch hynny'n bwyllog, nid yn ymosodol. Nid yw hyn yn ymwneud â'u dal yn gwneud camgymeriad - mae'n ymwneud â chysylltu'r dotiau.

Egluro'ch cais

Mae llawer o gyfarfodydd Aelod o'r Senedd yn methu ar y diwedd oherwydd bod y prif gamau gweithredu yn mynd ar goll yn y drafodaeth gyffredinol. Peidiwch â gadael i hynny ddigwydd. Y cam olaf hwn yw eich cyfle i wneud yn siŵr ei bod hi'n glir iawn beth rydych chi eisiau i'ch Aelod ei wneud nesaf. Dyma ychydig o bethau y gallwch chi eu gwneud i sicrhau nad oes unrhyw ddryswch:

• Byddwch yn benodol

Mae'n debyg bod yna lawer o bethau rydych chi eisiau i'ch Aelod o'r Senedd eu gwneud! Fodd bynnag, mae'n syniad da bod yn glir ynglŷn â beth yw'r flaenoriaeth - beth yw'r peth cyntaf rydych chi eisiau i'ch Aelod o'r Senedd ei wneud? Gallwch chi bob amser ddechrau'n syml a datblygu i gamau mwy beiddgar yn ddiweddarach.

Enghraifft: Byddem yn ddiolchgar pe gallech ysgrifennu at Dŵr Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru i ofyn am gyfrif llawn o pam mae'r broblem wedi mynd mor ddrwg yn lleol, yn ogystal â sut maen nhw'n bwriadu ymchwilio i'r problemau a'u datrys."

• Gofynnwch am ymateb

Gwnewch yn siŵr eich bod yn geirio'ch cais mewn ffordd sy'n cael ymateb llafar gan eich Aelod o'r Senedd, mae hyn yn eich helpu i gadarnhau bod eich cais wedi'i ddeall, ac mae'n creu disgwyliad cwrtais ond pwysig o atebolrwydd. Rhowch gynnig ar eirio'ch gofyniad yn un o'r ffyrdd canlynol:

Enghraifft: “A yw hynny'n rhywbeth y byddech chi'n fodlon ei wneud?”
“A allaf ddibynnu ar eich cefnogaeth ar gyfer hyn?”
“A wnewch chi ymrwymo i gymryd y cam hwn a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni pan fyddwch chi wedi'i wneud?”

• **Cofnodwch eich prif bwyntiau’n ysgrifenedig**

Crynowch eich prif bwyntiau a’ch cais mewn dogfen fer i’ch Aelod o’r Senedd, fel hynny, ni fydd unrhyw amheuaeth bod ganddo gofnod cywir o’r hyn rydych chi wedi’i drafod. Gallai hyn hefyd fod yn gyfle da i fanylu ar unrhyw ffeithiau neu ganfyddiadau sydd gennych chi ar effaith llygredd carthion yn eich ardal, fel bod eich Aelod o’r Senedd yn gallu cyfeirio'n ôl atyn nhw ar gyfer unrhyw gamau pellach mae’n eu cymryd - fodd bynnag, os nad ydych chi'n gallu dod â llawer iawn o fanylion at ei gilydd, peidiwch â phoeni! Bydd y prif bwyntiau'n ddigon.

Rydym wedi creu templed ar gyfer briff i’r Aelod o’r Senedd y gallwch ei ddefnyddio os byddai hynny'n ddefnyddiol!



4 - Camau Dilynol

Crynodeb Gweithredu:

- *Ewch i'ch cyfarfod gyda'ch Aelod o'r Senedd gyda chynllun am gamau dilynol a chadw'r pwysau ar y sefyllfa.*
- *Meddyliwch am eich amserlen ddilynol. Beth fyddwch chi'n ei ofyn i'ch Aelod o'r Senedd: ar ddiwedd eich cyfarfod, wythnos yn ddiweddarach, mis yn ddiweddarach, 3 mis yn ddiweddarach, 6 mis yn ddiweddarach.*

Efallai mai dyma'r cam pwysicaf, a'r un y mae'r rhan fwyaf o bobl yn ei anghofio: cofiwch gymryd camau dilynol. Os ydych chi eisiau i'ch Aelod o’r Senedd fod yn gefn gwirioneddol o ran llygredd carthion, nid eich cyfarfod cyntaf yw'r diwedd, dim ond y dechrau ydyw!

Nid yw camau dilynol yn golygu ei boeni bob dydd. Mae'n golygu cael cynllun clir i gadw mewn cysylltiad, parhau i ddwyn pwysau ar y sefyllfa, a sicrhau ei fod yn gwneud yr hyn y dywedodd y byddai’n ei wneud.

Dyma sut allwch chi rannu'r amserlen ar ôl cwrdd â'ch Aelod i weithredu camau dilynol a pharhau i ddwyn pwysau ar y sefyllfa:

• **Wythnos ar ôl y cyfarfod**

O fewn wythnos ar ôl y cyfarfod, anfonwch e-bost at eich Aelod o’r Senedd yn diolch iddo am ei amser ac yn cadarnhau eich cais/yr hyn y mae eich Aelod wedi cytuno i'w wneud. Mae hon yn ffordd dda o fod yn barchus o amser eich Aelod ond hefyd yn cadarnhau ei fod wedi ymrwymo i wneud rhywbeth.

• **Mis ar ôl y cyfarfod**

O fewn mis i gyfarfod eich Aelod o’r Senedd, cysylltwch i wirio a ydyw wedi cwblhau'r camau y cytunwyd arnynt - yn enwedig os nad yw eich Aelod o’r Senedd na'i dîm eisoes wedi bod mewn cysylltiad â diweddariadau.

- **3 mis ar ôl y cyfarfod**

Tua 3 mis ar ôl eich cyfarfod, gallai fod yn ddefnyddiol gwirio beth mae eich Aelod o'r Senedd wedi bod yn ei wneud – beth mae wedi bod yn ei wneud yn y Senedd, beth y gallai fod wedi bod yn ei ddweud yn y wasg neu mewn mannau eraill. A ydyw'n parhau i fynd i'r afael â llygredd carthion a'r diwydiant dŵr? Os felly, pa gamau pellach mae wedi'u cymryd?

Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'ch Aelod o'r Senedd a'i dîm yn ystod y cyfnod hwn gydag unrhyw ystadegau a ffeithiau newydd am ryddhau carthion, adroddiadau o salwch neu drafodion amheus yn y diwydiant dŵr.

- **6 mis ar ôl y cyfarfod**

Os yw hi wedi bod tua chwe mis, mae eich Aelod o'r Senedd wedi gweithredu ar eich cais ac yn agored i ddiweddariadau, mae'n bryd codi'r safon. Trefnwch gyfarfod dilynol a meddyliwch am eich cam nesaf: pa gamau ffres, amserol allech chi ofyn amdanynt sy'n ei wthio i fynd ymhellach a bod yn fwy beiddgar?

Ar yr ochr arall, os nad yw eich Aelod o'r Senedd wedi gweithredu ac wedi mynd yn dawel, mae'n bryd newid tactegau. Cynyddwch y pwysau gyda phrotest gymunedol greadigol, gwnewch sŵn ar gyfryngau cymdeithasol, a chael y wasg leol i siarad - beth bynnag sydd ei angen i dynnu ei sylw.

EWCH YN FANYLACH:

DOD O HYD I'R STRATEGAETH ORAU I DDYLANWADU AR EICH AELOD O'R SENEDD



Yn yr adran hon, byddwn yn cloddio ychydig yn ddyfnach i ddeall beth sy'n gwneud Aelod o'r Senedd yn barod i gymryd camau gwirioneddol ar lygredd carthion – a sut y gallwch chi ddarganfod ble mae eich un chi'n sefyll. Byddwn yn edrych ar yr arwyddion: pa gamau y gallai'ch AS eisoes fod wedi'u cymryd, ble mae ei blaid yn sefyll ar y mater, i ba raddau mae llygredd carthion yn bryder byw yn eich etholaeth, a pha mor gysylltiedig yw'ch AS â phryderon ei etholwyr.

Ar gyfer pob un o'r ffactorau hyn, fe welwch feini prawf syml i'ch helpu i roi sgôr i'ch AS. Ewch drwyddynt ac ychwanegwch eich sgôr i weld a ydynt eisoes wedi'u paratoi i arwain y frwydr dros ddŵr glân yn y Senedd – neu a yw'n bryd cynyddu'r pwysau cyhoeddus i'w gael i symud.

GWEITHREDU AR GARTHION YN Y GORFFENNOL

0 = Dim byd o gwbl

2 = Yn lleisio barn – e.e. datganiadau cyhoeddus cyson

3 = n lleisio barn ac yn Weithredol – e.e. wedi arwain dadleuon, wedi cynnig diwygiadau, wedi ymgyrchu'n lleol

Beth i gadw llygad amdano:

Rydym yn chwilio am unrhyw beth a allai roi syniad i ni a yw eich Aelod o'r Senedd yn ystyried mynd i'r afael â llygredd carthion yn flaenoriaeth a beth yw'r atebion yn ei farn ef.

Ar **broffil Senedd** eich Aelod o'r Senedd, cliciwch ar 'mwy' o dan 'Fy Ngweithgareddau Senedd' a bydd hynny'n codi bar chwilio y gallwch ei ddefnyddio i chwilio am bynciau mwy penodol y mae eich Aelod o'r Senedd wedi siarad amdanynt yn y Senedd. Chwiliwch am 'llygredd carthion' a nodwch yr adegau y mae eich Aelod o'r Senedd wedi mynd i'r afael â'r mater yn y Senedd - er peidiwch â mynd ar faint yn unig, gwnewch yn siŵr eich bod yn gwirio mai dyna'n union a ddywedodd.

Chwilio



× Clirio pob un

OPSIYNAU TREFNU

- Trefnu yn ôl perthnasedd
- Trefnu yn ôl dyddiad (newydd yn gyntaf)
- Trefnu yn ôl dyddiad (Hen yn gyntaf)

HIDLO YN ÔL DYDDIAD

HIDLO YN ÔL PWNC

HIDLO YN ÔL CATEGORI

HIDLO YN ÔL IS-CATEGORI

161 canlyniadau wedi'u darganfod

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Iechyd Meddwl i'r graddau y maent ...
Cynnig NDM8991 | Wedi'i gyflwyno ar 30/09/2025 | A gyflwynwyd gan Sarah Murphy

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i fynd i'r afael â'r marwolaethau diweddar yng Ngharchar y Parc?
Cwestiwn Amserol TQ1080 | Wedi'i gyflwyno ar 15/05/2024 | A gyflwynwyd gan Sarah Murphy

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i wella gwasanaethau arennol ym Mhen-y-bont ar Ogwr?
Cwestiwn Llafar OQ60996 | Wedi'i gyflwyno ar 25/04/2024 | A gyflwynwyd gan Sarah Murphy

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i wella gwasanaethau arennol ym Mhen-y-bont ar Ogwr? The NHS Wales Joint Commissioning Committee is establish...
QNR OQ60996 | Wedi'i gyflwyno ar 25/04/2024 | A gyflwynwyd gan Sarah Murphy

Os awn yn ôl at ein hesiampl o Sarah Murphy, Aelod o'r Senedd dros Ben-y-bont ar Ogwr, a chwilio am yr allweddeiriau 'llygredd carthion', gallwn weld ei fod yn codi dim ond un sylw a wnaed ganddi yn y Senedd.


WQ83927 (e)

Wedi'i gyflwyno ar 22/11/2021

Sut mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau nad yw gwastraff carthion yn cael ei ddympio ar draws dyfroedd arfordirol a ddefnyddir ar gyfer ymdrochi yng Nghymru?



Sarah Murphy
Pen-y-Bont ar Ogwr

Wedi'i ateb gan Y Gweinidog Newid Hinsawdd | Wedi'i ateb ar 26/11/2021

There are tight regulatory controls over the number and volume of discharges from Combined Storm Overflows (CSOs) located near coastal bathing waters. They are only permitted to discharge when the sewer network has reached capacity due to heavy rainfall and where there is a risk of sewage backing up into properties. Natural Resources Wales (NRW) and Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW) have identified and reduced the spill frequency of all storm overflows which could affect designated bathing water sites.

In 2021, and for the fourth consecutive year, Wales met 100% bathing water quality compliance standards, with 85 of the 105 designated bathing waters achieving a classification of 'excellent' and none were classified as 'poor'. The classification is based on the results of a statutory monitoring regime delivered by NRW pre and during the bathing season which runs from 15 May until 30 September.

Wales is internationally recognised as having some of the best beaches and best water quality in Europe. High bathing water quality makes a significant contribution to coastal tourism, the Welsh economy and local communities. High bathing water quality is also vital for supporting valuable outdoor water recreation opportunities and contribute to the wellbeing of our citizens.

Efallai nad yw ei sylw – cwestiwn ysgrifenedig a gyflwynodd i'r Gweinidog Newid Hinsawdd – yn rhoi llawer o wybodaeth inni, ond o leiaf mae'n amlwg ei bod hi'n credu bod angen rhoi'r gorau i ryddhau carthion.

WQ88024 (e)

Adam Price

Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr

Wedi'i gyflwyno ar 21/04/2023

Pa ystod o bwerau sydd gan Lywodraeth Cymru o ran ymgymryd â mesurau cosbi, gan gynnwys codi dirwyon, yn erbyn cwmnïau dŵr am waredu carthion?

Wedi'i ateb gan Y Gweinidog Newid Hinsawdd | Wedi'i ateb ar 03/05/2023

Water discharges by water companies are governed by environmental permitting legislation. The Welsh Government has no powers under that legislation to undertake punitive measures if water companies fail to comply with the environmental permitting regime.

The current legislation provides Wales' environmental regulator, Natural Resources Wales, with a range of compliance and enforcement tools to investigate potential non-compliance and where appropriate, enables it to prosecute water companies.

Depending on the circumstances, such as the scale, nature and impact of non-compliance, sanctions for failing to comply with environmental permitting legislation in relation to water discharges could include an unlimited fine and/or imprisonment for up to five years.

Mewn cymhariaeth, mae'r cwestiwn ysgrifenedig hwn a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru gan Adam Price – Aelod o’r Senedd Plaid Cymru dros Ddwyrain Caerfyrddin a Dinefwr – yn rhoi ychydig mwy o wybodaeth i ni. Mae'n dangos i ni fod Adam Price, yr Aelod o’r Senedd, yn debygol o gredu y dylai Llywodraeth Cymru gael mwy o bwerau i ddwyn cwmnïau dŵr i gyfrif.

SAFBWYNT Y BLAID

Sgorio:

0 = **Mae'r blaid yn gwrthwynebu newid go iawn**

1 = **Mae'r blaid yn niwtral neu'n aneglur**

2 = **Mae'r blaid yn gyffredinol gefnogol**

3 = **Mae'r blaid yn gefnogol iawn ac yn ymgyrchu dros y mater**

Beth i gadw llygad amdano:

O ran pwyso a mesur safbwynt plaid wleidyddol ar garthion, rydym yn chwilio am ymrwymïadau clir i drawsnewid y ffordd y mae'r diwydiant dŵr yng Nghymru yn gweithredu, nid dim ond addewidion amwys i leihau carthion sy’n cael eu rhyddhau.

Os yw'n helpu, gallwch gyfeirio'n ôl at yr egwyddorion ... a nodir gennym yn ein Gweledigaeth ar gyfer Dŵr. Pan fyddwch chi'n edrych ar bolisiâu swyddogol plaid, meddyliwch a fyddai'r polisiâu hyn yn:

- Diogelu Iechyd y Cyhoedd a'r Amgylchedd**
- Democrateiddio'r Broses Gwneud Penderfyniadau**
- Creu gwerth am arian i gwsmeriaid.**
- Cryfhau Rheoleiddwyr Annibynnol**
- Sicrhau Tryloywder**

I ddarganfod polisiâu plaid, y lleoedd cyntaf i’w gwirio yw safbwyntiau polisi sydd ar gael ar eu gwefan neu eu manifestos o etholiad diweddar.

Plaid Cymru calls for powers to address the "scourge of sewage" in Wales's waterways

Published
7 June 2023

Wales has "constitutional right" to power over water, to help tackle soaring bills – Delyth Jewell MS

Plaid Cymru has today (Wednesday 7 June) renewed its calls for Wales to have full control over its water resources to address the problem of sewage in waterways, and to help reduce water bills.

Plaid Cymru's spokesperson for Climate Change and Energy, Delyth Jewell MS said that the privatisation of water is a "failed model" and the current legislative framework "doesn't match Wales's powers over water to our borders."

This means that Wales lacks the ability to legislate to stop or control the transfer of water from Wales by private companies that are mainly based in England, but whose jurisdiction does extend into Wales, such as United Utilities, which owns the abstraction licence for the Llyn Efyrrwy (Lake Vyrnwy) reservoir.

While the Silk Commission recommended ending this anomaly, and matching Wales's powers over water to its borders - as is already the case in Scotland and Northern Ireland - Plaid Cymru recently revealed that Welsh Ministers requested that the devolution of Water, as set out in the 2017 Wales Act, be delayed.

Plaid Cymru is taking a debate to the Senedd that calls for Wales to have the full control over its water resources.

Wales needs a designated environmental watchdog to stop sewage dumping, say Welsh Conservatives

Post

Wednesday, 23 April, 2025

Senedd News



The Welsh Conservatives are calling for action from the Labour Welsh Government to protect Welsh Waterways, following recent figures on sewage dumping. Janet Finch-Saunders MS, has reiterated her past calls in the Senedd for the Labour Government to introduce a dedicated environmental watchdog to hold companies like Dŵr Cymru to account for their continued dumping.

Analysis of Welsh Water's figures show sewage was discharged 110, 276 times last year, which equates to an average of more than one sewage spill every five minutes. The total number of hours that sewage was discharged for was 968,340 in Wales last year, compared to more than 916,000 hours the year before. Meanwhile, Dŵr Cymru customers have seen their bills rise by 27% with the average annual bill going up from £503 to £639, with rises planned annually for the next five years meaning customers are set to pay the highest water bills in England and Wales.

End Sewage Dumping in Wales

Raw sewage was dumped into Welsh rivers, lakes and seas more than 100,000 times last year for nearly a million hours. This sewage is killing wildlife and poses a danger to public health.

Meanwhile, Dŵr Cymru is failing to deliver for both Welsh customers and the environment, violating environmental permits over 200 times in the last six years yet only getting fined twice.

Labour in both Westminster and Cardiff Bay have the power to stop this atrocious practice, but are continuing to let water companies get away with it.

The Welsh Liberal Democrats want to:

- Ban bonuses for water company bosses and redirect funds into improving infrastructure.
- Demand the Welsh Government provides Natural Resources Wales with the funding and resources it needs to tackle & monitor pollution effectively.
- Install more phosphate removal facilities across our rivers.
- Introduce legislation to ban water companies from dumping raw sewage in our waterways.

Sign our petition below to demand Labour in the Senedd and in Westminster take action now to save our Welsh Waters and introduce legislation to stop sewage being dumped into our rivers, lakes and seas!

Fel enghraifft, dyma rai datganiadau polisi perthnasol o wefannau'r Ceidwadwyr Cymreig, Plaid Cymru a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru. Yn eich barn chi, beth maen nhw'n ei ddweud wrthym am y dull a'r credoau sydd gan bob plaid ynghylch llygredd carthion a'r diwydiant dŵr?

Ffynonellau da eraill o wybodaeth am safbwynt plaid wleidyddol yw cyfrifon cyfryngau cymdeithasol, gwefannau, cyfweiliadau newyddion neu erthyglau barn sy'n gysylltiedig ag unigolion pwysig o fewn y blaid sy'n ymdrin â chylch gwaith dŵr. Yn aml, arweinwyr y blaid fydd yr unigolion hyn ar faterion fel yr amgylchedd, newid hinsawdd, neu amaethyddiaeth a materion gwledig.

PERTHNASEDD ETHOLAETH

Sgorio:

0 = **Dim perthnasedd hysbys**

1 = **Perthnasedd isel**

2 = **Perthnasedd cymedrol**

3 = **Perthnasedd uchel** – e.e. cymuned arfordirol/afon neu fannau problemus carthion hysbys

Beth i gadw llygad amdano:


Gan fod eich Aelod o'r Senedd i fod i gynrychioli buddiannau eich etholaeth, mae'n bwysig meddwl a oes unrhyw broblemau penodol, lleol gyda charthion neu broblemau gyda'r ffordd y mae'r diwydiant dŵr yn gweithredu yn eich ardal. Dyma rai pwyntiau i'w hystyried yn gyntaf:

- **A oes unrhyw gyrff dŵr yn eich etholaeth y mae pobl yn trochi eu hunain ynddynt yn rheolaidd?**
- **Os oes, pa mor aml mae carthion yn cael eu rhyddhau i'r corff dŵr hwnnw? Ydych chi, neu unrhyw un arall, wedi mynd yn sâl o ganlyniad?**
- **A ydych chi neu unrhyw un arall yn eich ardal yn cael trafferth gyda chostau biliau dŵr cynyddol?**

Efallai yr hoffech hefyd ystyried a oes gan unrhyw ddyfroedd yn eich ardal ddynodiad dŵr ymdrochi neu a yw eich ardal yn adnabyddus am unrhyw fath penodol o chwaraeon dŵr - neu hyd yn oed draddodiad lleol sy'n cynnwys pobl yn mynd i'r dŵr.

Cliciwch yma i ddarganfod a oes gan unrhyw un o'r dyfroedd gerllaw ddynodiad dŵr ymdrochi.

Mae'r Ap Safer Seas and Rivers Service yn ffynhonnell wych o wybodaeth i ddarganfod pa mor rheolaidd y mae carthion yn cael eu rhyddhau i'r dyfroedd gerllaw. Mae'r ap yn cyfuno data gan gwmnïau dŵr a rheoleiddwyr amgylcheddol ar gyfer 600 o leoliadau ledled y DU. Y cyfan sydd angen i chi ei wneud yw lawrlwytho'r ap a chwilio am eich lleoliad - dylai hyn godi nifer o fannau yn eich ardal.



Drwy ychwanegu eich ardal at eich 'rhestr wylïo' ar yr ap, gallwch gael rhybuddion byw pan fydd carthion yn cael eu rhyddhau yno. Ar dudalen proffil lleoliad eich ardal, gallwch hefyd edrych ar nifer y carthion sy'n cael eu rhyddhau a 'Rhagolygon Risg o Lygredd' (PRFs) a fu yn y gorffennol drwy glicio ar y tab 'Hanes'.

Gan ddefnyddio **Rest Bay ym Mhorthcawl** fel enghraifft, mae'n amlwg pam y dylai Sarah Murphy Aelod o'r Senedd fod yn bryderus ynghylch carthion yn effeithio ar ei hetholaeth!

Defnyddiwch y codau QR i lawrlwytho'r ap!


Defnyddwyr iPhone:



Defnyddwyr Android:



I gael gwybod faint o bobl yn eich ardal sydd wedi mynd yn sâl o ganlyniad i ddod i gysylltiad â llygredd carthion, edrychwch ar ein [dangosfwrdd Ffigurau Salwch](#) ar SAS Data HQ.



Ar y dangosfwrdd, gallwch chwilio drwy'r achosion rydyn ni wedi'u cofnodi dros y 7 mlynedd diwethaf yn ôl cwmni dŵr, dyddiad a lleoliad. Bydd hyn hefyd yn rhoi gwybodaeth i chi am y mathau o salwch y mae defnyddwyr y dyfroedd wedi'u profi, a faint o amser i ffwrdd y mae'n rhaid iddyn nhw ei gymryd oherwydd salwch.

Y tu hwnt i effaith uniongyrchol llygredd carthion, meddylwch am y sŵn y mae eich cymuned eisoes yn ei wneud. Mae ASau yn llawer mwy tebygol o weithredu pan maent yn teimlo pwysau gwirioneddol gan y bobl maent yn eu cynrychioli. Gall deisebau, protestiadau, sylw yn y cyfryngau, neu hyd yn oed grŵp lleol lleisiol, oll gynyddu'r gwres.

Ddim yn siŵr a oes llawer yn digwydd? Taflwch olwg gyflym dros y newyddion lleol, grwpiau cymunedol ar Facebook, neu glybiau syrffio a nofio cyfagos. Hyd yn oed os nad oes ymgyrch ffurfiol eto, mae trafodaethau ar-lein neu lythyrau yn y papur yn aml yn arwydd o don gynyddol o bryder.

**HYGYRCHEDD AC
YMATEBOLRWYDD**

- Sgorio:
- 0 = **Anodd ei gyrraedd**
 - 1 = **Ymatebol weithiau**
 - 2 = **Hygyrch yn gyffredinol ac yn ateb**
 - 3 = **Ymatebol iawn ac yn ymgysylltu'n rhagweithiol ag etholwyr**

Beth i gadw llygad amdano:

Bydd faint o bresenoldeb corfforol sydd gan eich Aelod o'r Senedd yn eich etholaeth yn ffactor mawr wrth gyfrifo faint o ymdrech y gallai fod angen i chi ei rhoi i gael ei sylw. Mae rhai Aelodau o'r Senedd yn adnabyddus am fod yn agored, yn ymatebol ac yn weithredol yn eu cymunedau – mae eraill yn fwy anodd eu canfod neu dim ond yn ymateb o dan bwysau parhaus.

Cofiwch, gyda'r pwynt hwn, nid ydym yn meddwl am ba mor aml y mae Aelod o'r Senedd yn ymateb i ymholiadau gan ei etholwyr yn unig, ond ansawdd yr ymateb hefyd. Dyma rai ffactorau allweddol i'w hystyried:

- **Ydych chi eisoes wedi cysylltu â'ch Aelod o'r Senedd am fater o'r blaen?**

Os ydych chi, a gawsoch ymateb amserol i'ch ymholiad? A oedd yr ymateb yn teimlo'n generig ac yn ddiystyriol, neu a oedd yn bersonol ac yn ddiddorol? Os nad ydych chi wedi cysylltu â'ch Aelod o'r Senedd o'r blaen, a oes unrhyw un rydych chi'n ei adnabod wedi gwneud hynny? Peidiwch â phoeni os nad ydych erioed wedi cysylltu ag Aelod o'r Senedd o'r blaen, byddwn ni'n edrych ar sut i wneud hynny'n fanylach yn yr adran nesaf.

- **A yw'ch Aelod o'r Senedd yn cynnal cymorthfeydd etholaethol neu sesiynau galw heibio rheolaidd?**

Bydd y rhan fwyaf o Aelodau o'r Senedd yn cynnal 'cymorthfeydd cyngor' neu sesiynau galw heibio rheolaidd i glywed yn uniongyrchol gan etholwyr am y problemau maen nhw'n eu hwynebu - y dylid eu hysbysebu ar unrhyw wefannau, llwyfannau cyfryngau cymdeithasol neu gylchlythyrau maen nhw'n eu rheoli. Bydd y sesiynau hyn fel arfer yn gweithio ar sail apwyntiad ac yn para 10-15 munud fesul etholwr. Nid yw hyn yn ddigon hir i gael trafodaeth fanwl gyda nhw, ond gall fod yn ffordd dda o wneud cyflwyniadau a threfnu cyfarfod dilynol.

- **A ydyn nhw'n weithgar ar-lein/ar gyfryngau cymdeithasol?**

Gall fod yn ddefnyddiol gwirio a yw eich Aelod o'r Senedd yn postio ar-lein yn rheolaidd, yn enwedig ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol. Er hynny, peidiwch â chael eich twyllo gyda'r un yma, gall rai o'r Aelodau o'r Senedd sydd fwyaf gweithredol ar gyfryngau cymdeithasol fod y rhai sydd leiaf ymgysylltiedig yn eu cymunedau hefyd! Beth rydym yn chwilio amdano yma yw postiadau sy'n ymwneud â materion a digwyddiadau lleol, neu efallai hyd yn oed yn ymateb i etholwyr yn uniongyrchol ar gyfryngau cymdeithasol.

- **A yw eich Aelod o'r Senedd yn bresennol yn rheolaidd yn eich cymuned?**

Os gellir dod o hyd i'ch Aelod yn rheolaidd yn yr etholaeth yn mynychu digwyddiadau, yn siarad mewn cyfarfodydd neu'n briffio'r wasg leol, yna gallai hynny fod yn arwydd ei fod yn hygyrch. Sut mae trigolion a newyddiadurwyr yn eich ardal yn siarad am eich Aelod o'r Senedd, a ydynt yn eu disgrifio fel 'ymarferol' neu 'anodd eu cyrraedd'?



CYFANSWM SGÔR:

0-3

Efallai y bydd angen pwysau go iawn ar eich AS i ddechrau gweithredu ar fynd i'r afael â llygredd carthion. Efallai yr hoffech ystyried defnyddio'r cyfryngau a chatau creadigol i gryfhau pryder y cyhoedd ac amlygu'r broblem – gan ysgogi'ch AS i gymryd safiad. Dim ond sicrhewch eich bod hefyd yn cyfathrebu'n uniongyrchol â nhw wrth i chi adeiladu'r pwysau cyhoeddus.

4-6

Gellid darbwylo'ch AS i newid ei farn gyda ychydig o ymdrech. Cyfunwch godi pwysau cyhoeddus ag ymgysylltiad uniongyrchol â'ch AS sy'n canolbwyntio ar ddadleuon sy'n seiliedig ar dystiolaeth a straeon am effaith wirioneddol ar fywydau pobl. Dim ond sicrhewch eich bod yn cadw'r cyfathrebu â'ch AS yn gryno, ac yn cadw'ch ceisiadau'n gwrtais ond pendant.

7-9

Mae'n debygol y bydd eich AS yn gydymdeimladol, felly peidiwch ag oedi cyn gofyn am gyfarfod a defnyddio hynny fel cyfle i'w hannog i wneud mwy. Efallai y bydd angen ychydig o wthiad arnynt i'w cael i fynd ymhellach a siarad allan, ond pan wnant hynny, gallant droi'n gynghreiriad gwirioneddol!

10-12

Mae eich AS yn bencampwr posibl dros yr achos! Ysgogwch nhw. Anogwch ddatganiadau cyhoeddus, gweithredu yn y cyfryngau, ac arweinyddiaeth bolisi – gallent wneud pob gwahaniaeth wrth sicrhau canlyniadau a fydd yn glanhau ein dyfroedd unwaith ac am byth.

SENARIOS CYFFREDIN



IYn yr adran hon, byddwn yn edrych ar rai o'r sefyllfaoedd mwyaf cyffredin sy'n ymwneud â llygredd carthion a allai eich ysgogi i gysylltu ag eich AS. Boed yn dywallt carthion newydd ar eich traeth lleol, tystiolaeth yn dod i'r amlwg fod eich cwmni dŵr yn torri rheolau amgylcheddol, elw afresymol i gyfranddalwyr, neu bleidlais bwysig sydd ar ddod yn y Senedd, mae pob sefyllfa'n cynnig cyfle gwahanol i wthio am newid.

Defnyddiwch yr enghreifftiau a'r awgrymiadau isod i deilwra'ch dull, adeiladu'ch achos, a helpu'ch AS i symud o eiriau i weithredu.

“Mae carthion wedi'u rhyddhau yn fy nhraeth/afon leol”

Cyngor ar sut i drafod hyn gyda'ch Aelod o'r Senedd:

Byddwch yn glir ynglŷn â'r hyn a ddigwyddodd a'i effaith – Dechreuwch gyda'r ffeithiau: pryd a ble y digwyddodd hyn, pa mor hir y parhaodd, a phwy a gafodd ei effeithio. Defnyddiwch dystiolaeth fel rhybuddion carthion o'r ap Gwasanaeth Moroedd ac Afonydd Mwy Diogel (SSRS), ystadegau o Data HQ, lluniau, neu adroddiadau newyddion lleol.

Rhowch wedd bersonol ar y broblem – mae Aelodau o'r Senedd yn ymateb yn gryf pan welant sut mae eu hetholwyr yn cael eu heffeithio. Rhannwch sut mae wedi tarfu ar eich man nofio, syrffio, neu badlo rheolaidd, neu sut mae wedi niweidio busnesau lleol, twristiaeth, neu fywyd gwyllt.

Cynigiwch gefnogaeth, ond gosodwch ffiniau – Awgrymwch ffyrdd o helpu, fel gwahodd eich Aelod o'r Senedd i gwrdd â thrigolion yr effeithiwyd arnynt neu weld y safle rhyddhau. Ond peidiwch â gadael i'r sgwrs oedi er mwyn canfod ffeithiau diddiwedd. Byddwch yn gwrtais ond yn benderfynol.

Beth y gall eich Aelod o'r Senedd ei wneud am y peth:

Dwyn Dŵr Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru i gyfrif – gall Aelodau o'r Senedd ofyn am friffiau swyddogol, mynnu ymweliadau safle, a phwyso ar y cwmni dŵr a Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) am atebion a chatau unioni.

Tynnu sylw'r cyhoedd at y broblem – Gall godi'r mater yn y Senedd, siarad â'r wasg, neu gefnogi eich ymgyrch gymunedol. Mae datganiadau cyhoeddus a chefnogaeth wleidyddol yn cynyddu'r pwysau ar y llygrwyr.

“Mae fy nghwmni dŵr wedi cael ei ddal yn gollwng carthion yn anghyfreithlon”

Cyngor ar sut i drafod hyn gyda'ch Aelod o'r Senedd:

Byddwch yn blwmp ac yn blaen - Nid dim ond 'damweiniau' yw'r rhain. Os oes tystiolaeth bod Dŵr Cymru wedi torri'r gyfraith, dywedwch hynny. Defnyddiwch dermau fel “amheuaeth o dorri cyfraith amgylcheddol” os ydych chi'n ansicr, a chefnogwch hynny â thystiolaeth.

Dewch â thystiolaeth – Defnyddiwch adroddiadau SAS Data HQ, SSRS, neu CNC i ddangos pam rydych chi'n amau gweithgarwch anghyfreithlon. Nodwch amodau tywydd lleol hefyd – mae rhyddhau carthion ar ddiwrnodau sych yn aml yn anghyfreithlon.

Beth y gall eich Aelod o'r Senedd ei wneud am y peth:

Codi'r mater yn y Senedd – Gall Aelodau o'r Senedd holi'r Gweinidog Newid Hinsawdd, cyflwyno Cwestiynau Ysgrifenedig, neu bwysu'n uniongyrchol ar y Prif Weinidog. Mae hyn yn gorfodi Llywodraeth Cymru a rheoleiddwyr i weithredu.

Mynnu camau gorfodi cryfach – Gall Aelodau o'r Senedd graffu ar berfformiad CNC, galw am ymchwiliadau, a gwthio am reoliadau newydd neu gosbau llymach ar gwmnïau dŵr sy'n torri'r gyfraith.

“Mae Dŵr Cymru wedi bod yn talu ffortiwn i'w Prif Swyddog Gweithredol tra bod carthion yn parhau i gael eu rhyddhau”

Cyngor ar sut i drafod hyn gyda'ch Aelod o'r Senedd:

Dewch i wybod y ffeithiau – Yn wahanol i gwmnïau Lloegr, nid yw Dŵr Cymru yn sefydliad er elw, ond mae ei becynnau cyflog i'r weithrediaeth yn aml yn sbarduno dadleuon. Cyfeiriwch at ffigurau diweddar yn y cyfryngau neu adroddiadau blynyddol sy'n dangos cyflogau mawr Prif Swyddogion Gweithredol er gwaethaf llygredd rheolaidd.

Fframiwch y mater tegwch – Hyd yn oed heb ddifidendau, mae'n dal yn anghywir bod penaethiaid yn cael eu gwobrwyo tra bod carthion yn parhau i gael eu gollwng. Pwysleisiwch annhegwch cwsmeriaid yn talu biliau cynyddol tra bod arweinyddiaeth yn cael ei thalu'n dda a'r system yn parhau i fethu.

Beth y gall eich Aelod o'r Senedd ei wneud am y peth:

Herio gweinidogion a Dŵr Cymru yn uniongyrchol – Gall Aelodau o'r Senedd ysgrifennu at Lywodraeth Cymru ac arweinyddiaeth Dŵr Cymru i fynnu tryloywder a pholisïau cyflog tecach.

Gwthio am ddiwygio'r diwydiant dŵr yng Nghymru – Gall gefnogi galwadau am reoleiddio cyflog y weithrediaeth yn fwy llym mewn cwmnïau budd cyhoeddus, a rhoi pwysau er mwyn i'r holl arian gael ei ail-fuddsoddi i fynd i'r afael â llygredd carthion, nid i lenwi pocedi swyddogion gweithredol.

“Mae pleidlais ar gyfraith bwysig newydd ar y gweill yn y Senedd sy'n ymwneud â charthion”

Cyngor ar sut i drafod hyn gyda'ch Aelod o'r Senedd:

Pwysleisiwch y brys – Eglurwch pam mae'r gyfraith hon yn bwysig i'ch cymuned a beth fydd yn cael ei golli os na chaiff ei gweithredu. Dangoswch y gwahaniaeth y gallai ei wneud yn lleol – traethau glanach, afonydd mwy diogel, pobl iachach.

Byddwch yn glir ynghylch disgwyliadau – Dywedwch wrth eich Aelod o'r Senedd fod ei etholwyr yn disgwyl iddo gymryd hyn o ddifrif a chefnogi newid go iawn.

Beth y gall eich Aelod o'r Senedd ei wneud am y peth:

Pleidleisio dros gyfreithiau cryfach – Gall Aelodau o'r Senedd gefnogi, diwygio, neu wrthwynebu deddfwriaeth i lanhau dyfroedd Cymru. Mae pob pleidlais yn cyfrif.

Llunio polisi – Gall Aelodau o'r Senedd ymuno â phwyllgorau'r Senedd (fel Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith) i ddylanwadu ar sut mae cyfreithiau carthion newydd yn cael eu cynllunio ac yn destun craffu.

“Dydy fy Aelod o’r Senedd ERIOED wedi dweud dim am lygredd carthion”

Cyngor ar sut i drafod hyn gyda’ch Aelod o’r Senedd:

Cadwch y peth yn syml – Nid yw pob Aelod o’r Senedd yn arbenigwyr mewn polisi dyfroedd. Eglurwch y pethau sylfaenol: beth sy'n digwydd, pwy sy'n gyfrifol, a sut mae'n effeithio ar iechyd, natur a chymunedau lleol.

Peidiwch â thybio bod distawrwydd yn golygu diffyg diddordeb – Efallai nad ydyw wedi siarad yn gyhoeddus eto oherwydd blaenoriaethau cystadleuol. Rhowch y ffeithiau iddo a chyfle i ymgysylltu cyn thybio nad ydyw’n poeni dim.

Beth y gall eich Aelod o’r Senedd ei wneud am y peth:

Siarad yn gyhoeddus – Mae hyd yn oed datganiad syml ar y cyfryngau cymdeithasol neu yn y Senedd yn helpu i godi ymwybyddiaeth ac yn ei roi ar y llwybr i weithredu.

Gweld y broblem dros ei hun – Gwahoddwch eich Aelod o’r Senedd i ymweld â'ch traeth, afon neu lyn lleol i gwrdd â'r rhai yr effeithir arnynt. Mae gweld y broblem yn uniongyrchol yn ei gwneud hi'n llawer anoddach i'w hanwybyddu.

ADNODDAU



DOLENNI

- [Adroddiad ansawdd dŵr 2025](#)
- [Gwefan Senedd Cymru](#)
- [Surfers Against Sewage Data HQ](#)

TEMPLEDI

- [E-bost templed](#)
- [Briff templed i’r Aelod o’r Senedd](#)
- [Cynllun dilynol templed](#)